

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Hysbysiad Preifatrwydd

Cafodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (y Comisiwn) ei sefydlu gan Prif Weinidog Cymru i adolygu sut mae'r system gyfiawnder yng Nghymru yn gweithredu ac i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol, gyda'r nod o:

- wella canlyniadau o ran cael mynediad at gyfiawnder, gostwng nifer y troseddau, a hybu'r broses adsefydlu;
- sicrhau bod y trefniadau awdurdodaethol ac addysg gyfreithiol yn adlewyrchu ac yn rhoi sylw i rôl cyfiawnder yn llywodraethiant a ffyniant Cymru, yn ogystal â materion penodol sy'n codi yng Nghymru;
- hyrwyddo cadernid a chynaliadwyedd y sector gwasanaethau cyfreithiol Cymreig a sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosibl i ffyniant Cymru.

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei rhoi - gan gynnwys unrhyw ddata personol - yn cael ei defnyddio gan y Comisiwn at ddibenion cyflawni ei orchwyl cyhoeddus o ran adolygu'r system gyfiawnder yng Nghymru ac ystyried sut y gellir sicrhau gwell canlyniadau i Gymru. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y mae'n eu cael mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth, a chaiff yr wybodaeth ei phrosesu gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

Bwriad y Comisiwn yw cyhoeddi ymatebion i'r cais am dystiolaeth ar ei gwefan. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod y cais am dystiolaeth wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu'r Comisiwn i gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau.

Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gan y Comisiwn, bydd rhaid i'r Comisiwn benderfynu a ydy am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i'r Comisiwn i beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd

hynny'n ffaith bwysig i'r Comisiwn ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad, er eu bod wedi gofyn i'r Comisiwn i beidio â'u cyhoeddi. Bydd y Comisiwn yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at y data personol y mae'r Comisiwn yn eu cadw amdanoch;
- I ofyn inni gywiro anghywirdebau yn y data hynny;
- (O dan amgylchiadau penodol), i wrthwynebu'r prosesu neu i gyfyngu arno;
- (O dan amgylchiadau penodol) i ofyn i'ch data gael eu dileu;
- I wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Os ydych am wneud cwyn, dyma fanylion cyswllt y swyddfa honno:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd CF10 2HH

Rhif Ffôn: 029 2067 8400 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau ynghylch sut y bydd y Comisiwn yn defnyddio'ch data, ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 250494
E-bost: ComisiwnCyfiawnder@llyw.cymru

Dyma fanylion Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ.
E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

27 Chwefror 2018